

CADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych

Gweinidog: Y Parch Ddr Andras Iago – Ffon- 07778511672.

Mehefin 2018

Rhif 086

Roedd hi'n hynod braf cael gweld yr haf yn ei holl ogoniant ddiwedd mis Mai! Ar ôl misoedd oer y gaeaf, does dim llawer gwell na gweld yr haul a chael teimlo'i wres.

Yng nghanol y gwres mawr dyma ddigwydd troi at eiriau Salm 19. Mae'n dechrau a'r geiriau enwog: 'Y mae'r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo', cyn troi i ddisgrifio grym a phrydferthwch yr haul.

Cododd babell i'r haul yn yr awyr.
Mae'n dod allan fel priodfab o'ystafell;
neu athletwr yn frwd i redeg ras.
Mae'n codi ar y gorwel,
ac yn symud o un pen i'r llall.
Does dim yn gallu cuddio rhag ei wres.

Fedwrn ni ddim edrych i lygad yr haul – hyd yn oed pan fydd wedi ei guddio ar adeg eclips mae'n ddigon llachar i'n dallu. I'r salmydd, ac i ninnau heddiw, mae'n anodd meddwl am rywbeth mwy pwerus. Ac eto, pan fydd yn machludo'n goch ar yr adeg hon o'r flwyddyn, mae yna ryw ryfeddod gwahanol, llonydd.

Mae'r salm yn ein annog ni i edrych ar y byd o'n cwmpas ni mewn ffordd arbennig. Os yw'r cwbl a welwn mor anhygoel, pa faint yn fwy rhyfeddol yw'r Duw wnaeth lunio'r cwbl?

DYDDIADUR

Cinio'r Fro – Y mis yma mae'r drefn yn newid ychydig. Mi fyddwn yn cynnal "TE PRYNHAWN" yn y Capel Mawr, dydd Gwener, **Mehefin 8fed, am 3 y.p.**

BORE COFFI YN GER Y LLAN, LLANDYRNOG
BORE SADWRN, MEHEFIN 9fed AM 10 y.b.
Elw at Capel y Dyffryn.

TE MEFUS a CHREFFTAU yn NEUADD Y PENTREF
TREFNANT, DYDD SADWRN, MEHEFIN 9fed, am 2.00 y.p.
ELW tuag at YMCHWIL CANCR CYMRU.

NOSON IEUENCTID YN NEUADD LLANDYRNOG, 7.00 y.h,
15 MEHEFIN. Gemau gyda gweithwyr Coleg y Bala. Croeso mawr i bawb.

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Llun, Mehefin 11

Cinio Cynnil yn y Ffestri 12.00-1.00

Croeso cynnes i bawb

Dydd Sul, Mehefin 17

2.00 – Parch Andras Iago

Dydd Sul, Mehefin 25

10.00 – Mr Celfyn Williams

Dymunwn yn dda i Dei Griffiths sydd erbyn hyn wedi ymgartrefu yn Dolwen.

BRWCWS

Dydd Sul, Mehefin 3ydd

Ysgol Sul am 10.00

Oedfa Gyfun – Parch. Andras Iago am 2.00

Dydd Sul, Mehefin 10ed

Ysgol Sul am 10.00

Miss Llinos Mary Jones am 2.00

Dydd Sul, Mehefin 17eg

Ysgol Sul am 10.00

Parch. Gwyndaf Jones am 2.00

Dydd Sul, Mehefin 24ain

Ysgol Sul am 10.00

Oedfa'r Teulu – Parch. Andras Iago am 2.00

Llongyfarchiadau a phob bendith i Iona Teleri Jones, Encil a Iwan Roberts ar eu priodas yng Nghapel y Fron dydd Sadwrn, Mai 19eg.

Y DYFFRYN

Dydd Sul Mehefin 3ydd am 11 yb

Parch Gwyndaf Jones

Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant

(Ysgol Sul oedolion am 10.30)

Emyn a darllen - Mair

Organ - Anwen

Blodau - Olwen

BORE SADWRN, MEHEFIN 9fed AM 10.00 yb, BORE COFFI YN GER Y LLAN

Dydd Sul Mehefin 10fed am 9.45 yb

Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant

(Ysgol Sul oedolion am 9.15)

Emyn a darllen - Nia

Emyn a darllen plant - Nanw a Malan

Organ - Glenys

Blodau - Ffiona

Dydd Sul Mehefin 17eg am 9.45 yb

Cyfarfod Gweddi

Organ - Iona

Blodau - Buddug

Dydd Sul Mehefin 24ain am 11 yb

Mr Hugh Foster Evans

Gwasanaeth/Ysgol Sul plant

(Ysgol Sul oedolion am 10.30)

Emyn a darllen - Alaw neu Rheinallt

Emyn a darllen plant - Elinor neu Anna

Organ - Ann

Blodau - Anwen

GELLIFOR

Dydd Sul, Mehefin 3

9.45 - Gwyndaf Jones

Llywydd - Glen

Gwasanaeth Dechreuol - Joy

Offeryn - Alaw

Blodau - Haf

Dydd Sul, Mehefin 10

11.00 - Gweinidog

Llywydd - Gareth

Gwasanaeth Dechreuol - Elaine

Offeryn - Richard

Blodau - Haf

Dydd Sul, Mehefin 17

Trip y Gymdeithas

Dydd Sul, Mehefin 24

9.45 - Huw Foster Evans

Llywydd - Nic

Gwasanaeth Dechreuol - Bryn Bedw

Offeryn - Margaret

Blodau - Joy

FRON

Llywydd y mis – Dilys Davies

Dydd Sul, Mehefin 3ydd

11.00 – Capel Mawr – Bugail

5.30 – Fron – Bugail

Dydd Sul, Mehefin 10fed

10.00 – Fron – Miss Llinos Mary Jones, Gwyddelwern

5.30 – Capel Mawr – Parch Nesta Davies

Dydd Sul, Mehefin 17eg

10.00 – Capel Mawr – Parch Gwyndaf Jones, Bangor

5.30 – Fron – Mr Tudur Hughes

Dydd Sul, Mehefin 24ain

11.00 – Fron – Bugail

5.30 – Capel Mawr – Bugail

Organyddion –

3ydd – Mrs Megan Williams

10fed – Mrs Iona Edwards

17eg – Mrs Eiri Jones

24ain – Mrs Megan Williams

Blodau – yn gyfrifol am y mis Mrs Anwen Williams

3ydd – Eiri Jones

10fed – Eleri Jones

17eg – Fron Heulog

24ain – Helina Morris

Croesawu –

3ydd – Gaynor Prew

10fed – Wendy Lloyd Jones

17eg – Gwyrfaï Jones

24ain – Carys Jones

Diolch i haelioni aelodau o'r cyhoedd yn Ninbych, bellach mae cadair olwyn yn y Fron ac un arall yn y Capel Mawr.

Yr ydym fel Eglwys yn cydymdeimlo hefo Mr a Mrs Erfyl Williams, 12 Crud y Castell. Mae Erfyl wedi colli modryb, ac hefyd mae Mr a Mrs Dafydd Ll. Jones, Glyn Garth wedi colli perthynas agos yn ddiweddar, Erbyn rwan mae Mrs Anwen Williams, Carrog wedi dod i'r Infirmary ac yr ydym yn meddwl amdanoch ac yn cofio atoch Anwen. Yr ydym hefyd yn anfon ein cofion at yr aelodau sydd yn methu'r oedfaon am wahanol amgylchiadau – gobeithio y gwelwn chi yn ôl reit fuan.

Mi fydd cyfarfod Blynyddol Cymdeithas y Chwiorydd Fron a'r Brwews yn cyfarfod nos Fercher Mehefin 20fed am 7 o'r gloch yn y Festri er mwyn trefnu rhaglen ar gyfer y tymor nesa.

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi bod yn trefnu, dosbarthu amlenni ac yn ei derbyn yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol.

Y CAPEL MAWR A SEION

** DALIER SYLW

Pan fo'r Gweinidog gyda ni yn Y Capel Mawr neu'r Fron bydd yr oedfa am 11am

Dydd Sul, Mehefin 3

11am – Y Capel Mawr - Y Gweinidog - Cymun.

5.30pm – Y Fron – Y Gweinidog.

Dydd Sul, Mehefin 10

10am – Y Fron – Miss Llinos Mary Jones, Gwyddelwern

5.30pm – Y Capel Mawr – Y Parch. Nesta Davies

Dydd Llun, Mehefin 11

1.30pm – Cyfarfod Gweddi

Dydd Sul, Mehefin 17

10am – Y Capel Mawr – Y Parch. Gwyndaf Jones

5.30pm – Y Fron – Mr Tudur Hughes

Dydd Sul, Mehefin 24

11am – Y Fron - Y Gweinidog - Cymun

5.30pm – Y Capel Mawr - Y Gweinidog

Llywydd Y MIs: -

Mrs Nerys Ann Roberts

Casglyddion:-

Mr Dyfan Roberts Mr Steffan Jones

Wrth y Drws:-

Mr Dyfan Roberts Mr Steffan Jones

Organydd/ Cyfellydd:-

Mehefin 3 - Mrs Dorothy Rogers

Mehefin 10 - Mrs Dorothy Rogers

Mehefin 17 - Mrs Catrin Warren

Mehefin 24- Mrs Catrin Warren

BLODAU

Mehefin 3 - Mrs Alwen Rönnpage

Mehefin 17 - Mrs Nancy Jones

LLETY'R PREGETHWYR

Mehefin 10 - Y Capel Mawr

Mehefin 17- Y Fron

COLLI AELOD - Ers y rhifyn diwethaf o'r Cadwyn Bro bu inni golli'n haelod hynaf, sef Mr Hywel Vaughan, 3 Maes yr Eglwys. Bu farw Mr Vaughan ar Ebrill 18fed yn 96 mlwydd oed. Brodor o Gynwyd ydoedd a threuliodd ei oes yn gweithio ar y tir ac ym myd diwydiant.

Cynhaliwyd ei angladd ar y cyntaf o Fai gyda gwasanaeth i gofio a diolch amdano yn Y Capel Mawr. Gweinyddwyd gan y Gweinidog gyda Mrs Dorothy Rogers wrth yr organ. Bu'r traddodiant ym mynwent Capel Y Waen, Aberchwiler.

Cydyndeimlwn â'i briod Kathleen, ei fab Robert a'i ferch Kathleen a gweddill y teulu yn eu galar.

Meddyliwn amdanynt yn ein gweddïau.

CYDYMDEIMLAD - Cydymdeimlwn â Mrs Delyth Williams, 9 Blaen Wern, a'r teulu yn ei phrofedigaeth o golli'i thad. Meddyliwn amdanynt yn ein gweddiâu.

COFION - Anfonwn ein cofion at aelodau sydd neu a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac at rai sydd gartref yn dioddef o anhwylderau. Hefyd cofion at rai ohonoch sydd mewn cartrefi preswyl.

ACHOS DA - Bu Catrin Warren yn cymryd rhan yn y Moonwalk yn Llundain yn ddiweddar (taith o 26 milltir) er mwyn codi arian at elusen Cancr y Fron – elusen sydd yn agos iawn atyn nhw fel teulu. Os hoffech chi gefnogi Catrin anfonwch eich cyfraniad at:- <https://moonwalklondon2018.everydayhero.com/uk/catrin-1> neu mynnwch air â hi.

HELP! A fedrwch chi roi cinio ar y Sul i weinidog sydd yn talu ymweliad â ni? Nid oes angen gwneud mwy na hynny. Mae'r baich yn syrthio ar hyn o bryd ar nifer fechan ohonom. Os gwelwch yn dda, cysylltwch â Stan Lyall os gellwch chi'n helpu,

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2002

Mae'r Ysgrifennydd yn chwilio am wybodaeth arbennig sydd i'w gael yn yr uchod. Cysylltwch ag ef, os gwelwch yn dda, os oes gennych gopi o'r adroddiad hwnnw.

Aelwyd Capel Mawr

Ymweld a Chwmni Llaeth y Llan, Cwmni 'Yogurt'

Bwriedir trefnu ymweliad ar ddydd Mawrth, Mehefin 5ed. Cychwyn mewn ceir oddiwrth Capel Mawr am 1.30. Cyraedd Llaeth y Llan erbyn 2.00 o'r gloch. Byddwn yn cael cyfle i weld y gerddi hardd, gyda te prynhawn i ddilyn. Bydd cyfle i gael golwg ar y datblygiadau diweddaraf yn y Ffatri. Pris y cyfan fydd £8.50.

Enwau i Tom Williams, 816410 neu Mair Jones, 816550
erbyn dydd Gwener Mehefin 1af.

PENTRE, PRION, GLYN

Dydd Sul, Mehefin 3ydd

9.45 - Prion - Mrs Helena Jones

Dydd Sul, Mehefin 10fed

9.45 - Pentre - Mr Peter Smith

Dydd Sul, Mehefin 17eg

9.45 - Pentre - Gweinidog a Cymun

11.00 - Prion - Gweinidog

Dydd Sul, Mehefin 24ain

9.45 - Prion - Parch Alan Spencer

BORE COFFI - Diolch i bawb am y genfogaeth i'r bore Goffi tuag at Cymorth Cristnogol a elusennau lleol, Elw o £277 a diolch i bawb a fu'n helpu ar y stondinau, ac am y cacennau a'r cynnyrch, ac am y gwobrau raffl, ac i'r merched fu'n gofalu am y te, coffi a'r bisgedi, ac i'r rhai fu'n rhannu amlenni, gwerthfawrogwn y cwbl.

CÔR CYTGAN CLWYD - Diolch eto i bawb am eu cymorth i neud y noson yma yn llwyddiannus, i Ann, Morwen a'r Côr, a Dafydd ac Ynyr, i Lowri am gyflwyno, i'r rhai yn gofalu am y drws, maes parcio, ac am werthu tocynnau, ac i rhieni yr Ysgol Sul am ofalu am y lluniaeth i'r Côr, ac i'r gynneilleidfa gyfan, cawsom noson pleserus iawn, a elw o £500 tuag at y Capel.

Nid ydyw noson y chwiorydd i ymweld a cael swper wedi ei drefnu eto, ond mi fyddwn yn cadarnhau y manylion yn fuan

CYDYMDEIMLO - Ein cofion a'n cydymdeimlad at Deulu Talyrmau, Idwal wedi colli ei frawd yng nghyfraith.

GLYN

Dydd Sul 10 o Fehefin am 2.00

Cynhelir Oedfa gyda Andras Iago yn Gwasanaethu.

TREFNANT

Llywydd y Mis : BET ROBERTS

Dydd Sul, Mehefin 3ydd

9.45 - Gweinidog 11.15 YSO

3.30 - Gweinidog

Blodau : Dilys Hughes

Dydd Sul, Mehefin 10fed

10.00 - Y Parch John Owen 11.15 YSO

3.00 - Y Parch John Owen

Blodau : Mair Stanyer

Dydd Sul, Mehefin 17eg

10.00 - Mr Glyn Williams 11.15 YSO

3.00 - Gwasanaeth Gweddi a Mawl

Blodau : Gwen Roberts

Dydd Sul, Mehefin 24ain

9.45 - Gweinidog - Gwasanaeth y Cymun
gyda phaned i ddilyn

3.30 - Gweinidog

Blodau : Rhiannon Wynne

TE MEFUS A CHREFFTAU


Eto eleni mae criw o ferched dan arweiniad Rhian Hughes ag eraill yn trefnu y Te Mefus a Chrefftau a gynhelir yn Neuadd y Pentre, Trefnant, ar Ddydd Sadwrn Mehefin 9fed 2018 am 2.00 o'r gloch. Mae'r elw i gyd yn ol eu harfer bellach, yn mynd tuag at Ymchwil Cancr Cymru. Dewch i gefnogi a mwynhau orig yn cymdeithasu gyda'r paned a'r mefus - croeso mawr i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL Mae Bryn wedi trefnu noson ar ein cyfer ar nos Wener, Mai 25ain. Rydym yn dechrau'r noson yn Nhrefnant am 6.00pm ac mae Bryn yn addo y byddwn yn mwynhau bwyd gyda'n gilydd ar ddiwedd y noson. Croeso cynnes i bawb.

NOSON LLONGYFARCH PLANT YR YSGOL SUL - Cafodd wyth o blant yr Ysgol Sul eu gwobrwyo yng nghyfarfod yr Henaduriaeth yn Llansannan ar nos Wener, Mai 11eg. Llongyfarchiadau Gruff, Mali, Elin, Awen, Gwen, Ela, Mari ac Efan a diolch i Angharad Elis ac Anwen Evans am eich harwain yn yr Ysgol Sul drwy'r flwyddyn ac yn arbennig wrth greu cywaith amrywiol, diddorol, ar y thema "Caru dy Gymydog" ar gyfer y noson hon. Gwerthfawrogir eich gwaith yn yr Eglwys bob amser - diolch yn fawr.

LLONGYFARCHIADAU i Glyn a Beryl Roberts, Pen Isa'r Green, ar ddatlu eu Priodas Ddeiamwnt ym Mis Mai - chwe deg mlynedd wedi hedfan - hefyd, ar ddod yn hen Daid a Nain gan bod ei hwyres Siwan wedi cael bachgen bach - pob dymuniad da i chi i'r dyfodol gan obeithio y bychwch eich dau yn ol gyda ni yn fuan.

NEGES NESTA




Braint oedd mynychu Sasiwn y Chworydd yn ein Henaduriaeth ar ddydd Mercher 2ail o Fai a chael lawnsiad thema Newydd y chworydd **Myfi yw Goeuni'r Byd** a llyfryn yn llawn o adnoddau a syniadau am wasanaethau a myfyrdodau a ellir gael ei ddefnyddio gan y Gwasanaeth Plant a Ieuentid yn ogystal. Edrychwch yn eich Capeli am yr adnodd yma a'r Bwletin Cenhadol sydd yn cynnwys Patrymau gwau a syniad coginio@capel. Gwelir Ffilm fer am coginio@capel, Bwlchygwynt, Tregaron.<http://www.ebcpcw.cymru/cym/newyddion/43/0/coginio>

Soniais am y Gwaith crefft a ddsbarthwyd gennyf ar ôl ein Gwyl Basg y mis diwethaf ond mae gen i lawer o gapiau, mits a bandiau gwallt a ellir eu rhoi yn y Bocsiau Sgidiau a ddarparwch adeg y Nadolig. T4u ydy'r elusen a gefnogir nawr. Dewch mewn cysylltiad â mi i'w cael.
07870323790

Pethau eraill y gallwch baratoi yw yr Octopws sy'n addas ar gyfer rhai sydd a chyflwr Dementia a babanod cynamserol, ac os ydych yn gwneud carhenni a chwiltiau i fabis, rhaid iddynt fod yn 16modfeddx20modfedd. Rhoddwyd cwiltiau mwy i i Gartrefi Gofal, a dwedson nhw y buasai rhoi botymau, rhubannau a.y.y.b I rai chwarae efo nhw fel y menyf gof yn ddefnyddiol.

Mae llawer o Breswylwyr yn defnyddio walkers ac i wahaniaethu rhyngddynt gwnaethpwyd apel am bethau fel bag charms i hongian oddiarnynt – syniad arall am bethau bach i'w gwneud. Gallwch ddefnyddio defnydd neu ffelt, a gwnio rhai, neu fwclis a beads, neu weu neu grosio.

Llongyfarchiadau i'r Plant a anrhegwyd yn Llansannan am eu gwaith yn yr Ysgol Sul eleni ar 11eg. Dyma Luniau o'u hymdrechion.



Diolch i Mri Gwilym Williams a Bleddyn Williams am eu hymdrechion clodwiw fel Oedolion.

Mae llawer o wirfoddolwyr yn rhoi o'u hamser i gefnogi eu capeli ac in o'r rheiny yw Gwyneth Parry o Gapel y Waen Bodfari sydd wedi cynorthwyo gyda'r Cinio Cynnil o'r cychwyn, ond wedi hongian ei ffedog ar y 14eg o Fai. Mawr yw ein diolch am ei gwaith. A Diolch i Helen Pierce am helpu gydag Agor y Llyfr. A hoffem FWY er mwyn ymestyn y gwasanaeth.